*Cyferiad Clwb Gwenffrwd yw / Clwb Gwenffrwd's Address is:*

***CLWB GWENFFRWD, d/o Ysgol Gwenffrwd, Stryd Chwitffordd, TREFFYNNON, Sir y Fflint CH8 7NJ***

***Mr Graham Davies (Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Clwb Gwenffrwd)***

***Ffôn: 07767 836 706 / 01352 713158***

***E-bost: ClwbGwenffrwd5@hwbcymru.net***

**ARWEINYDD a / neu Rheolwr:**

# CLWB GWENFFRWD

**Oriau gwaith:** Mae cyfle i drafod gwahanol opsiynau **–**

- Bore 8:15 – 9 yb = 0.75awr ac yna P'nawn 3:15 – 5:30 yp = 2.25 awr yn gwneud cyfanswm 3 awr y dydd x 5 = 15awr y wythnos (ac os am fod yn Rheolwr yn ogystal ag Arweinydd, bydd cyfnod ychwanegol o oriau gweinyddol yn ddyledus).
- Os yw Boreau yn anodd (effallai fod gennych swydd mewn lleoliad arall yn ystod y dydd- yna dewch i drafod).
- Os oes cwestiynau eraill ynglyn â'g oriau (cwychwyn/ diwedd dydd) dewch i drafod.
- Mae staff yn y goffennol wedi cyfuno swydd Arweinydd/ Rheolwr Clwb Gwenffrwd gyda sywdd cynorthwy-wydd o fewn Ysgol Gwenffrwd. Er fod Pwyllgor Gwaith Clwb Gwenffrwd yn sefydliad hollol arwahan i'r ysgol – gallwch gysylltu gyda Phennaeth yr ysgol i holi am gyfleon swyddi a fydd ar gael yn yr ysgol wrth iddynt gynllunio ar gyfer Medi 2022.

Rydym yn chwilio am rywun i ymuno â'n tîm gwych, a chyfeillgar yma yng Nghlwb Gwenffrwd.

Rydym yn rhedeg clwb y tu allan i oriau ysgol ar gyfer plant 3-11 oed, sydd yn ddisgyblion yn Ysgol Gwenffrwd.

Rydym yn canolbwyntio ar gyfleon ymarferol a chwarae, ac yn mynd ati i hyrwyddo'r sgiliau sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth hwyliog ac o ansawdd da.

** Hoffem i'r ymgeisydd fod yn Arweinydd a Rheolwr ar y Clwb. (Ond, os ydych am fod yn Arweinydd HEB fod yn Rheolwr, mae posib trafod hyn).

**Beth fyddwch chi'n ei wneud:**

- Bod yn gyfrifol am weinyddu a chadw cofnodion o ddydd i ddydd sy'n cynnwys cynnal cofnodion presenoldeb a darparu ffurflenni gwybodaeth a chofnodion priodol eraill yn ôl yr angen a chynnal cofnodion o bresenoldeb staff.
- Ysgrifennu a dosbarthu llythyrau i rieni.
- Gweithio i bolisïau a gweithdrefnau CIW
- Dyfeisio a chyhoeddi polisïau Clwb Gwenffrwd yn ôl yr angen i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau awdurdodau lleol a CIW.
- Sicrhau bod rhaglen y Clwb yn cael ei ddarparu'n effeithiol.
- Cydweithredu a gweithio'n effeithiol gyda Pwyllgor Gwiath Clwb Gwenffrwd, gan ysgwyddo cyfrifoldebau/ dyletswyddau ychwanegol os oes angen.
- Cau ac agor y Clwb.
- Recriwtio, sefydlu, cefnogi, hyfforddi a gwerthuso'r holl staff i sicrhau y darperir ymarfer gofal plant o ansawdd uchel.
- Datblygu tîm â chymwysterau da a phrofiadol sy'n gallu cwrdd a'r safonau perthnasol.

**Rydym yn chwilio am rywun sydd:**

- Â phrofiad o weithio mewn lleoliad gofal plant.
- Yn amyneddgar ac yn ofalgar tuag at blant
- Yn gymwys i ddefnyddio systemau cyfrifiadurol gan gynnwys e-bost a Microsoft Word.
- Cyfathrebwr clir
- Model rôl da i'r plant
- Yn angerddol am ddatblygiad cyfleoedd chwarae i blant o bob gallu/ anghenion.
- Yn barchus o natur gyfrinachol yr holl waith sy'n ymwneud â disgyblion a'u teuluoedd.
- Siarad yn y Gymraeg gyda balchder (croesewir ceisiadau gan unigolion sydd yn dysgu Cymraeg ag sydd yn barod i wneud pob ymdrech i gadw hwn yn Glwb siarad Cymraeg).

**Cymwysterau:**

- NVQ lefel 3 mewn Gofal Plant, Gwaith Chwarae neu gymhwyster neu brofiad cyfatebol (bydd cyfle i hyffordi os ydych angen – dewch i holi).
- Cymorth Cyntaf Pediatreg.
- Tystysgrif a Hyfforddiant Hylendid Bwyd – dymunol, ond gallem drefnu hyn ichi.

**Yn amodol ar wiriad DBS boddhaol**

**Cytundeb:** Parhaol

**Cyflog:** £11.00 - £12.50 yr awr (dibynnol ar brofiad, ac ar dderbyn y swydd fel Arweinydd a/ neu Rheolwr)

Ffurflen gais ar gael drwy e-bostio ClwbGwenffrwd5@hwbcymru.net

Pob cais i mewn (ar e-bost) erbyn 10yb dydd Llun Mai 23ain, 2022.

Cyfeirier pob cais at sylw Mr Graham Davies, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Clwb Gwenffrwd os gwelwch yn dda.